**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 9 Ionawr 2002

**Amser:** 2.00 tan 5.00 pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**ADOLYGIAD Y PWYLLGOR DIWYLLIANT O'R IAITH GYMRAEG**

**Diben**

Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried themâu adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o'r Iaith Gymraeg mewn perthynas â phortffolio Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth. Nodir cylch gorchwyl yr adolygiad yn Atodiad A; ceir papur ymgynghorol yn amlinellu rhai o'r themâu y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried yn Atodiad B.

**Cefndir**

Mae'r Pwyllgor Diwylliant ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o'r Iaith Gymraeg ac mae wedi gofyn i bob pwyllgor pwnc archwilio ei faes cyfrifoldeb o ran materion yr Iaith Gymraeg, ac ystyried effaith ei waith ar yr iaith. Y bwriad yw canolbwyntio ar i ba raddau y mae'r polisïau'n galluogi neu'n atal twf yr iaith Gymraeg.

Mae dwy neges glir eisoes wedi deillio o'r adolygiad sy'n berthnasol i waith y Pwyllgor hwn. Sef:

- Gellir ystyried yr Iaith Gymraeg fel thema draws-bynciol sy'n cwmpasu pob maes polisi
- Mae llywodraeth leol ac asiantaethau eraill yn disgwyl i'r Cynulliad roi arweiniad mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg.

**Rhai themâu a chwestiynau posibl i'w hystyried.**

**<u>Cyffredinol</u>**

Gall y Pwyllgor ystyried a yw'n gweld yr iaith Gymraeg fel rhan hanfodol o'i agenda bolisi ac yn benodol, fel thema draws-bynciol sy'n cwmpasu ei frîff polisi.

**<u>Cynllunio</u>**

Mae canllawiau manwl y Cynulliad ar gynllunio a'r iaith Gymraeg yn 'Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 20', Yr Iaith Gymraeg - Cynlluniau Datblygu Unedol a Rheoli Cynllunio' ("TAN20") yn cydnabod y gall penderfyniadau am leoliad tai newydd mewn gwahanol ardaloedd effeithio ar gymeriad yr ardaloedd hynny gan gynnwys y cydbwysedd ieithyddol. Wrth baratoi eu Cynlluniau Datblygu Unedol, caiff awdurdodau lleol eu cynghori i ystyried anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg.

Yn gynnar yn yr adolygiad, derbyniodd y Pwyllgor Diwylliant dystiolaeth ddiddorol yn ymwneud â chynllunio a'r Iaith Gymraeg gan Dr Mark Tewdwr-Jones o Goleg Prifysgol Llundain. Amgaewyd y dystiolaeth hon i'r Pwyllgor ei hystyried yn Atodiad C, ond dyma restr gryno o rai o brif argymhellion Dr Tewdwr-Jones i wella'r amgylchiadau ar gyfer cynllunio a'r Iaith Gymraeg:

- Mae angen i'r Cynulliad egluro rôl y polisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg at ddefnydd yr awdurdodau lleol ac mae'n rhaid iddo fod yn ddatganiad ehangach ar y berthynas rhwng diwylliant, cymdeithas, aneddiadau, cymunedau a chynllunio.
- Mae angen i awdurdodau cynllunio lleol gasglu cymaint o wybodaeth â phosibl, gan gynnwys arolygon diweddar o broffiliau ieithyddol pob un o'u cymunedau, ac arolygon o anghenion tai, patrymau ymfudo dros gyfnod o ddeng mlynedd, y galw am dai y gall pobl leol eu fforddio, hyd a lled datblygiadau newydd ac ati.
- Ar yr un trywydd â'r uchod, gellid dynodi "ardaloedd ieithyddol" lle mae'r iaith ynghyd â'r nodweddion a amlinellir uchod mor sensitif fel eu bod ymhlith prif ystyriaethau'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a pholisïau yn y system gynllunio.
- O ran y polisi cynllunio cenedlaethol, gellir defnyddio iaith fwy cadarnhaol yn y NCT er mwyn annog awdurdodau cynllunio lleol i gymryd y cam cyntaf mewn perthynas â chynllunio, yr iaith a chymunedau cynaliadwy.
- Mewn perthynas â'r polisi o roi blaenoriaeth i ddatblygu, gall y Cynulliad ystyried gwrthdroi'r polisi mewn ardaloedd ieithyddol-sensitif, lle ceir tystiolaeth o ddatblygiadau'n cael effaith wirioneddol ar fuddiannau a gydnabuwyd fel rhai pwysig.
- Mewn perthynas â'r angen am ragor o ymchwil ac arfer da, dylai'r Cynulliad gomisiynu ymchwil ar ba mor ymarferol yw'r mesurau newydd wrth fynd i'r afael â materion ieithyddol mewn cynllunio neu astudiaeth o'r berthynas rhwng iaith, cynllunio a'r gymuned.

**Datblygu Cynaliadwy**

Wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy, hwyrach y bydd y Pwyllgor am ystyried anghenion yr iaith Gymraeg a sut y gellid ei chynnwys mewn cynllun o'r fath.

**Camau i'r Pwyllgor eu Cymryd**

- Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y themâu a'r cwestiynau a restrir uchod a darparu ymateb ysgrifenedig ffurfiol i'r Pwyllgor Diwylliant erbyn diwedd mis Chwefror.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Diwylliant Ionawr 2002**

**Atodiad A**

**CYLCH GWAITH**

Mae cylch gwaith yr adolygiad fel a ganlyn:

Ceisio mynd ati i ddiffinio amcan sefydliedig y Cynulliad Cenedlaethol o 'greu Cymru ddwyieithog' yn well. Nod y Pwyllgor fydd awgrymu strategaeth o weithgareddau er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw.

Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio'n benodol ar y themâu canlynol:

- Galluogi pobl i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall ym mhob agwedd ar fywyd cenedlaethol ac yn eu cymunedau;
- cefnogi'r Gymraeg fel iaith teuluoedd a chymunedau;
- darparu cyfleoedd i bobl ddysgu Cymraeg a'i defnyddio;
- hyrwyddo'r un faint o barch ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg, a chynnal consensws ac ewyllys da cenedlaethol ynghylch dwyieithrwydd.

Bydd y Pwyllgor yn archwilio gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a bydd hefyd yn astudio rôl a chyfraniad ystod o gyrff eraill. Bydd y rhain yn cynnwys asianataethau sy'n gysylltiedig â datblygu economaidd, mynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol, gwella dysgu, a gwella ansawdd bywyd.

**ATODIAD B**

**Mae'r themâu canlynol yn gosod strwythur i'r Adolygiad ac i'r adroddiad terfynol. Byddai o gymorth petaech yn gallu defnyddio'r themâu yn yr un modd yn eich cyflwyniad. Rydym wedi cynnwys Blaenoriaethau, Mesurau a Rhwystrau Posibl, a**

**nodwyd yn barod mewn adroddiadau a thrafodaethau am yr iaith Gymraeg. Gallwch ymateb i'r rhain neu ychwanegu atynt yn eich cyflwyniad.**

**Mae'r Prif Themâu yn 'wleidyddol' yn yr ystyr eu bod yn ymwneud â chynnal pobl yn eu cymunedau a dinasyddion mewn perthynas â'u llywodraeth ddemocrataidd. Y mae hefyd bum pwnc sy'n croestorri bob thema sy'n seiliedig ar y gwaith damcaniaethol ar ddwyieithrwydd a chynllunio iaith. Seiliwyd y damcaniaethau ar astudiaethau o gymunedau ledled y byd sydd wedi ymdrin â dwyieithrwydd.**

THEMA: TEULUOEDD A CHYMUNEDAU

Dylid ystyried y thema hon yn arbennig ynghyd â'r themâu trawsbynciol a welir isod. Bydd y Pwyllgor Addysg yn adolygu agweddau ffurfiol addysg ddwyieithog. Cesglir y dystiolaeth honno ar wahân. Mae'r adolygiad hwn yn ystyried addysg feithrin a darpariaeth Cymraeg-i-oedolion a ddarperir gan yr amryw gymunedau islaw,

**BLAENORIAETHAU:**

- Teuluoedd
- Cymunedau Daearyddol ( yn cynnwys cadarnleoedd yr iaith)
- Cymunedau Sefydliadol (Statudol a Gwirfoddol)
- Cymunedau Corfforaethol
- Cymunedau Hirbell
- Pobol ifanc y tu allan i amgylchfyd ysgol
- Mewnfudo i ac allfudo o gadarnleoedd y Gymraeg

**MESURAU**

- Cynllunio Ieithyddol
- Rhoi grym i gymunedau
- Hyfforddiant
- Mesurau cynnal teulu a chymuned
- Asiantaethau galluogi deinamig
- Datblygu cynaliadawy
- Cysylltu a mynediad i'r dechnoleg newydd
- Partneriaethau effeithiol

**RHWYSTRAU POSIBL**

- Diffyg adnoddau
- Diffyg syniadau newydd

- Rheoliadau Cynllunio
- Biwrocratiaeth oddi uchod
- Gagendor Digidol

**THEMA: DATBLYGU ECONOMAIDD**

Heb weithgarwch economaidd mae cymunedau'n marw. Heb gymuned, mae ieithoedd yn marw. Datblygu economaidd, yn enwedig yng nghadarnleoedd yr iaith, yw hanfod cynhaliaeth yr iaith. Mae enghreifftiau hanesyddol o hyn yn ardaloedd chwareli'r gogledd a maes glo'r gorllewin; mae enghreifftiau mwy diweddar yn y sector cynhyrchu annibynnol sy'n cyflenwi S4C, Antur Teifi a Menter a Busnes.

**BLAENORIAETHAU:**

- Cefnogi a chynnal mentrau, yn enwedig mentrau cymunedol, mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn dal yn gryf, ar gyfer buddsoddiad Amcan 1.
- Sicrhau nad yw eu lleoliad yn eithrio'r ardaloedd hyn o'r gymdeithas wybodaeth.
- Cynnig cymhellion i greu adnoddau dwyieithog.

**MESURAU**

- Cefnogi mentergarwch dwyieithog gyda chymhellion ychwanegol.
- Sicrhau cyswllt bandeang fforddadwy i bob rhan o Gymru.
- Rhoi hyfforddiant a chefnogaeth i gyfleon yn yr Economi Newydd i gwmnïau sy'n cyflogi gweithlu dwyieithog.
- Ystyried cymhellion trethiannol i gwmnïau bach a chanolig sy'n gweithredu'n ddwyieithog

**RHWYSTRAU POSIBL**

- Methu deall fod datblygiad economaidd yn hanfodol i ddatblygiad iaith.
- Methiant i gofleidio cyfleoedd y Dechnoleg Newydd nas cyfyngir gan leoliad.
- Methiant i gwmpasu syniadaeth economaidd brif ffrwd ar ymddygiad defnyddwyr mewn prosesau cynllunio iaith.

**THEMA: YMCHWIL A DATBLYGU**

Mae llawer o fylchau yn y wybodaeth sydd ei hangen i greu darlun clir o'r sefyllfa bresennol. Ni

fydd yr holl wybodaeth o'r cyfrifiad ar gael tan 2003. Bydd angen gwybodaeth i flaenoriaethu gweithgarwch y gallai'r Pwyllgor ei argymell.

## BLAENORIAETHAU

- Creu proses o gasglu data sylfaenol ar sefyllfa bresennol y Gymraeg.
- Gosod meincnodau i fesur effeithiolrwydd y polisi ar hyn o bryd a'r buddsoddiad mewn meysydd allweddol.
- Sefydlu ymchwil broffesiynol i fapio effeithiolrwydd dwyieithrwydd yng Nghymru
- Archwilio a datblygu dulliau traddodiadol a newydd o ddosbarthu adnoddau creadigol yn y Gymraeg.

### MESURAU

- Sefydlu partneriaeth o asiantaethau, S4C, BBC Radio Cymru, y Bwrdd Croeso, Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac eraill gydag adrannau ymchwil i rannu adnoddau.
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg i archwilio ymchwil gyfredol a chreu a chydlynu cynllun ymchwil Cymru gyfan yn y dyfodol.
- Creu bas data o'r ymchwil gyda chefnogaeth sefydliad Addysg Uwch a fydd ar gael i weithwyr prosiectau ac wedi ei gysylltu ag ymchwil Ewropeaidd.
- Sicrhau fod yr ymchwil yma yn sail i gynllunio buddsoddi cyhoeddus yn y tymor canolig a hir.

### RHWYSTRAU POSIBL

- Methu wynebu'r angen i gyfiawnhau buddsoddi cyhoeddus.
- Gadael i'r trefniadau rhyng-sefydliadol traddodiadol barhau.
- Diffyg ymddiriedaeth mewn proses agored, atebol, ddemocrataidd.

## THEMA: HYBU DWYIEITHRWYDD A CHYNNAL CONSENSWS CENEDLAETHOL AC EWYLLYS DA

Lle bo'r lleiafrif yn ddwyieithog a lle bo'r mwyafrif yn cydnabod hawl y dinesydd unigol i dderbyn gwasanaethau yn y naill neu'r ddwy iaith, mae tystiolaeth fod trefniadaeth sefydlog a pharhaol yn bodoli. Mae canfod consensws ar y ffordd hon ymlaen yn un o themâu'r adolygiad hwn.

## BLAENORIAETHAU

- Adeiladu ar y weledigaeth o Gymru ddemocrataidd, ddwyieithog, aml-ddiwylliant.

- Creu canfyddiad o'r Gymraeg fel adnodd gwerthfawr.
- Diffinio'r berthynas rhwng y dinesydd, y gymuned a'r llywodraeth.

**MESURAU**

- Y Cynulliad Cenedlaethol i arwain ar bolisïau holistaidd.
- Sicrhau fod adnoddau yn y Gymraeg ar gael ym mhob cymuned gan gynnwys cymunedau'r we.
- Dadansoddi agweddau a thrwy bartneriaeth o asiantaethau, hybu syniad dwyieithrwydd trwy Gymru gyfan.

**RHWYSTRAU POSIBL**

- Drysu rhwng adfywio iaith a chynnal diwylliant
- Trafod ‘aelodaeth ethnig’ yn hytrach na chymdeithas amrywiol.

## THEMA: BUDDSODDI CYHOEDDUS A STRWYTHURAU CYFLENWI

Mae'r thema hon yn ymwneud â chymryd golwg holistaidd ar gynllunio ieithyddol. Mae’n ymwneud â gwneud iaith yn thema drawsbynciol yn unrhyw ac ym mhob buddsoddi cyhoeddus mewn pobl a chymunedau.

**BLAENORIAETHAU**

- Swyddogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn y dyfodol.
- Creu rhwydwaith deinamig o systemau cyflenwi.
- Sefydlu peirianweithiau atebolrwydd.
- Gwneud defnydd llawn o wasanaeth teledu S4C a Radio Cymru'r BBC i gyflenwi adloniant poblogaidd a pherthnasol, gwybodaeth ac addysg yn y Gymraeg.

**MESURAU**

- Pennu cyfrifoldebau Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel cydlynydd a rheoleiddiwr mewn dull ysgafn.
- Rhoi adnoddau addas i'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau. (Daw'r rhain yn amlwg yn y strategaeth fydd yn esblygu yn ystod yr adolygiad)
- Creu fforwm i drafod y cynlluniau darlledu blynyddol a gyflwynir gan S4C a Radio Cymru i OFCOM
- Galluogi mentrau cynaliadwy fydd yn datblygu'n

rhwydwaith effeithiol o gyflenwi.

**RHWYSTRAU POSIBL**

- Ein bod yn siarad am gymhorthdal yn hytrach na buddsoddiad mewn pobl, cymunedau a dewis democrataidd.
- Ein bod yn methu defnyddio grym technolegau newydd i ryddhau.
- Ein bod yn parhau i chwilio am atebion biwrocrataidd oddi uchod.

Y mae pum thema drawsbynciol allweddol y dylid eu hystyried wrth drafod yr holl bynciau:

1. **Normaleiddio –** Mae'n sylfaenol mewn gwlad ddwyieithog fod pob iaith yn cael ei defnyddio'n normal ym mhob cyd-destun yn ôl dymuniad y dinesydd unigol. Mae angen cydnabod normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yng ngweithredoedd y wladwriaeth, a gweithgareddau uwch-gorfforaethol ac is-gorfforaethol. Golyga hyn:

    - Galluogi pobol i ddefnyddio’r naill neu'r ddwy iaith mewn bywyd bob dydd.
    - Ehangu ystod cysyniadau ar gyfer y Gymraeg
    - Cefnogi cydnabyddiaeth o ddwyieithrwydd mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, trafodion masnachol ac yn y gweithle.

1. **Trosglwyddo Iaith –** ffactorau sy'n pennu cynhaliaeth yr iaith o genhedlaeth i genhedlaeth, a'r ymyrraeth angenrheidiol i sicrhau fod hyn yn digwydd.
2. **Cynaliadwyedd yn y Gymuned** – ffactorau sy'n pennu fod y Gymraeg yn cael ei defnyddio a'i datblygu o fewn cymunedau – boed y rheini'n gymunedau daearyddol, sefydliadol, corfforaethol neu’n gymunedau hirbell.
3. **Datblygiad continuum iaith** – cynyddu sgiliau iaith, y cysyniadau defnydd a chynyddu'r hyder i'w defnyddio.
4. **Datblygu sefyllfaoedd diglossic –** cynyddu'r cyfleoedd lle mae'r Gymraeg yn gyfrwng amlwg i'w ddefnyddio i gyfathrebu